



Annwyl Syr/Madam

GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT PENBLEWIN I REDSTONE CROSS A THYNNU STATWS CEFNFFORDD) 2021

GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT PENBLEWIN I REDSTONE CROSS) (FFYRDD YMYL) 2021

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT PENBLEWIN I REDSTONE CROSS)) 2021

PENDERFYNIAD ASESIAD EFFAITH AMGYLCHEDDOL O DAN RAN VA O DDEDDF PRIFYRDD 1980

RHEOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2017 – RHEOLIAD 63:ASESIAD O'R GOBLYGIADAU I SAFLEOEDD EWROPEAIDD

TREFNIADAU DIRPRWYO

1. Mae'r swyddogaeth o benderfynu a ddylid gwneud y Gorchmynion a nodir uchod ai peidio, wedi cael ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r ddeddf honno. Ken Skates, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru (y Gweinidog), sef un o Weinidogion Cymru, sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad.

CYFLWYNIAD

2. Cynhaliwyd Ymchwiliad Cyhoeddus (yr Ymchwiliad) i'r Gorchmynion drafft uchod a'r sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol rhwng 10 Tachwedd 2020 a 13 Tachwedd 2020. Yr Arolygydd oedd Mr A. L. McCooey, BA MSc MRTPI.



AMODAU PRESENNOL

3. Ym mis Tachwedd 2001, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fframwaith Trafnidiaeth Cymru. Amlinellodd hwn fod y coridor trafndiaeth o'r dwyrain i'r gorllewin yn y gorllewin wedi bod yn destun astudiaeth aml-ddull, a ddaeth i'r casgliad bod angen gwelliannau i'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr.
4. Ar gyfer y rhan 1.8km o hyd rhwng Penblewin a Redstone Cross, datblygwyd opsiynau ar gyfer llwybrau ac fe'u gwerthuswyd ar gyfer aliniadau llwybr y gogledd a llwybr y de. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar yr opsiynau hyn rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019 a arweiniodd at gyhoeddi Llwybr a Ffeirir a chynllun TR111 ategol gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2019. Cynhaliwyd arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd ym mis Ebrill, mis Mai a mis Tachwedd 2019 ynglŷn â'r cynigion.
5. Nododd yr astudiaethau a gynhaliwyd fod nifer o broblemau gwirioneddol a chanfyddedig yn gysylltiedig â'r rhan hon o'r A40 a oedd yn cynnwys:
 - trefn cyffordd is na'r safon ar Gyffordd Redstone Cross;
 - gwelededd a phellteroedd gweld stopio a oedd yn is na'r safon;
 - cyfleoedd cyfyngedig ac anghyson i oddiweddyd;
 - amseroedd teithio annibynadwy a rhwystredigaeth ymhlith gyrwyr;
 - diffyg darpariaeth ar gyfer teithio llesol;
 - sawl mynedfa breifat / amaethyddol yn agor yn uniongyrchol ar y gefnffordd;
 - platwnio traffig a thraffig yn symud yn araf;
 - Mae yna ganfyddiad bod Sir Benfro yn anghysbell, sy'n atal mewnfuddsoddi a datblygiad twristiaeth.

CYNLLUN ARFAETHEDIG

6. Byddai'r cynllun arfaethedig yn cynnwys ffordd sengl 2+1 lydan 1.8km o hyd a fyddai'n darparu dwy lôn i un cyfeiriad ac un lôn i'r cyfeiriad arall rhwng y gylchfan ym Mhenblewin hyd at fan yn Sodston Lodge tua 550m i'r gorllewin i'r gyffordd bresennol yn Redstone Cross. Byddai'r cynllun arfaethedig yn darparu rhan goddiweddyd tua 1.2km o hyd tua'r gorllewin. Mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys pum strwythur, sef trosbont ffordd ymyl a phedair tanffordd (at ddibenion lliniaru ecolegol a chysylltedd amaethyddol). Hefyd, byddai'r cyrsiau dŵr presennol yn cael eu cadw drwy adeiladu nifer o gwlfertau a fyddai'n croesi o dan y cynllun arfaethedig. Mae'r cynigion a ddisgrifir yn y paragraff 6 hwn yn gyfystyr â'r Cynllun at ddibenion y llythyr penderfyniad hwn.

Y GORCHMYNION

7. Cyhoeddwyd y Gorchymyn Llinell drafft (Gorchymyn Llinell) a'r Gorchymyn Ffyrrdd Ymyl drafft ar 29 Gorffennaf 2020. Cyhoeddwyd y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft ar 5 Awst 2020. (Cyfeirir at y Gorchymyn Llinell, y Gorchymyn Ffyrrdd Ymyl a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol gyda'i gilydd fel y Gorchymynion drafft.) Pe baent yn cael eu gwneud, byddai'r Gorchymynion drafft yn awdurdodi: adeiladu rhannau newydd o'r gefnffordd; tynnu statws cefnffordd oddi ar rannau presennol o'r gefnffordd; cau priffyrdd presennol ac adeiladu a gwella priffyrdd presennol; cau mynedfeydd preifat a darparu ffordd fynediad newydd; caffael y tir a'r hawliau sydd eu hangen i

adeiladu'r gefnffordd newydd a'i chynnal a'i chadw yn y dyfodol; gwaith cysylltiedig ar ffyrdd ymyl; gwaith ategol a rhoi mesurau ar waith i liniaru'r effaith ar yr amgylchedd.

Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

Ymgynghoriad

8. Cyhoeddwyd y Datganiad Amgylcheddol ar 29 Gorffennaf 2020, yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Chyfarwyddeb 2011/92/UE y CE. Cyhoeddwyd Datganiad i Lywio Asesiad Priodol a asesodd oblygiadau'r Cynllun ar yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a mater cysylltiedig ar 29 Gorffennaf 2020 hefyd, yn unol â Chyfarwyddeb 92/43/ECC y CE a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.
9. Yn unol ag Adran 105B o Ddeddf Priffyrdd 1980 a Rheoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, gosodwyd hysbysiadau cyhoeddus yn The London Gazette a'r Western Telegraph ar 29 Gorffennaf 2020 yn cyhoeddi penderfyniad y byddai'r Cynllun yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol ac Asesiad o'r Effeithiau ar Safleoedd Ewropeaidd (a gyhoeddwyd ar 29 Gorffennaf 2020) ac yn gwahodd sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol a'r Datganiad i Lywio Asesiad Priodol erbyn 9 Medi 2020. Gosodwyd yr Hysbysiadau, ynghyd â'r holl ddogfennau cysylltiedig, ar adnau yn y lleoliad a restrir ym mharagraff 10 isod ac fe'u hanfonwyd, ynghyd â'r Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol, at y rhestr o dderbynyddion statudol ac anstatudol yn Atodiad A.

LLEOLIADAU DOGFENNAU A ADNEUWYD

10. Roedd copïau o'r Gorchmynion drafft, y Datganiad Amgylcheddol, y Crynodeb Annhechnegol a'r Datganiad i Lywio Asesiad Priodol ar gael i'w harchwilio yn Neuadd y Frenhines, 44 y Stryd Fawr, Arberth, SA67 7AS.

GWORTHWYNEBIADAU A GOHEBIAETH YN MYNEGI CEFNOGAETH

11. Cyflwynwyd 22 o wrthwynebiadau; 8 gwrthwynebiad statudol, 14 o wrthwynebiadau anstatudol; y tynnwyd 9 ohonynt yn ôl yn ddiweddarach. Mynegodd pedwar unigolyn gefnogaeth i'r Cynllun drwy lythyr neu e-bost. Roedd 13 o wrthwynebiadau i egwyddor y Cynllun erbyn i'r Ymchwiliad gau – 3 gwrthwynebiad statudol, 10 o wrthwynebiadau anstatudol.

ADRODDIAD YR AROLYGYDD

12. Amgaeir copi o Adroddiad yr Arolygydd (yr Adroddiad) y mae'r Gweinidog wedi'i ystyried bellach. Er y nodir crynodeb o gasgliadau'r Arolygydd yn y llythyr penderfyniad hwn, ni ddylid eu hystyried yn lle'r casgliadau llawn a gynhwyswyd yn yr Adroddiad. Mae pob cyfeiriad yn y llythyr penderfyniad hwn at rifau paragraffau yn cyfeirio at rifau paragraffau yn yr Adroddiad oni nodir yn benodol fel arall. Mae'r llythyr penderfyniad hwn yn nodi penderfyniad y Gweinidog.
13. Mae'r Arolygydd wedi cyflwyno adroddiad yn y ffordd ganlynol:
 - Adran 2 – materion gweithdrefnol;
 - Adran 3 – crynodeb o diroedd y cynllun;
 - Adran 4 – dadl Llywodraeth Cymru;
 - Adran 5 – dadl y cefnogwyr a sylwadau ymgylgoreion statudol;
 - Adran 6 – dadl y gwrthwynebwyr ac ymateb Llywodraeth Cymru;
 - Adran 7 – dewisiadau amgen;
 - Adran 8 – casgliadau;
 - Adran 9 – argymhellion yr Arolygydd.

CASGLIADAU'R AROLYGYDD AR FATERION PENODOL

Buddiannau Economaidd, Cymdeithasol a Diogelwch

14. Mae'r Arolygydd yn cydnabod bod y Cynllun yn rhan o raglen o welliannau i'r A40 yn y gorllewin a bod y rhaglen hon o welliannau wedi cael ei chynnwys mewn polisïau a rhaglenni cenedlaethol ers blyneddau lawer (paragraff 8.9). Mae'r Arolygydd yn cydnabod y byddai'r Cynllun yn helpu i wella'r rhwydwaith strategol yn y gorllewin, gan ysgogi economi'r gorllewin ac y byddai'n mynd i'r afael â chanfyddiadau o fod yn anghysbell. Nododd yr Arolygydd ymhellach y byddai'r Cynllun yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau o ran dibynadwyedd amseroedd teithio, rhwystredigaeth ymhlith gyrwyr oherwydd prinder cyfleoedd i oddiweddyd a phroblemau platwnio (paragraff 8.10).
15. Mae'r Arolygydd yn cydnabod bod difrifoldeb damweiniau ar hyd yr A40 bresennol rhwng Penblewin a Redstone Cross yn waeth na chyfartaleddau cenedlaethol a bod y tebygolrwydd y bydd damwain yn arwain at farwolaeth wyth gwaith yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (paragraff 8.12).
16. Mae'r Arolygydd yn nodi bod y Cynllun wedi bod yn destun asesiad economaidd a bod y gymhareb cost-budd a aseswyd yn isel iawn, sef 0.27 (paragraff 8.11), ond mae'r Arolygydd yn cydnabod dadl Llywodraeth Cymru nad yw'r gymhareb cost-budd yn rhoi darlun llawn. Mae'r Arolygydd yn nodi, pe bai ffigurau difrifoldeb damweiniau wedi cael eu cymhwyso yn yr arfarniad economaidd, y byddai cymhareb cost-budd o 0.67 (paragraff 8.13) Mae'r Arolygydd hefyd yn nodi y byddai'r profion sensitifedd eraill a gynhaliwyd ar gyfer yr arfarniad economaidd, megis asesu effaith terfyn cyflymder is ar yr A40 bresennol in Redstone Cross, hefyd yn gwella'r gymhareb cost-budd o 0.27 (paragraffau 8.13 ac 8.14). Nododd yr Arolygydd y byddai cymhareb cost-budd gyfunol yn debygol o fod rhwng 0.83 a 1.23 (paragraff 8.15).

17. Mae'r Arolygydd yn ystyried buddiannau cymdeithasol ehangach y Cynllun ym mharagraff 8.21. Mae'r Arolygydd yn ymwybodol o'r buddiannau hamdden ac iechyd sy'n gysylltiedig â cherdded a beicio ac mae o'r farn y byddai'r cynigion ar gyfer Teithio Llesol a Thynnu Statws Cefnffordd sy'n rhan o'r Cynllun yn sicrhau bod cyfleusterau cerdded a beicio yn yr ardal yn cael eu gwella.

Polisi Cenedlaethol a Lleol

18. Ym mharagraffau 8.19 – 8.21, mae'r Arolygydd yn nodi'r ystyriaethau deddfwriaethol a pholisi ac yn cyfeirio'n benodol at Bolisi Cynllunio Cymru (PCC), WeITAG 2017, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Arolygydd yn nodi bod yr Adroddiad Datblygu Cynaliadwy a baratowyd ar gyfer y Cynllun yn ystyried perfformiad y Cynllun yn erbyn ymrwymadau Llywodraeth Cymru a bod yr Adroddiad Datblygu Cynaliadwy yn dangos y byddai'r Cynllun yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gyflawni'r rhan fwyaf o'r nodau llesiant. Ym mharagraff 8.34, daw'r Arolygydd i'r casgliad bod y Cynllun wedi rhoi sylw i statud a pholisïau perthnasol, yn enwedig gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a PCC.

Cyllido

19. Mae'r Arolygydd yn cofnodi (paragraff 8.17) bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos bod y cyllid ar gyfer y Cynllun wedi cael ei ystyried yn briodol a, phe bai'r Gorchmynion drafft yn cael eu gwneud, ei bod yn debygol iawn y byddai'r Cynllun yn cael ei roi ar waith. Daw'r Arolygydd i'r casgliad nad oes unrhyw reswm dros awgrymu y byddai unrhyw oedi gormodol na chostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r Cynllun.

Effeithiau Amgylcheddol, Datganiad Amgylcheddol a Datganiad i Lywio Asesiad Priodol

20. Ym mharagraff 8.34, mae'r Arolygydd yn cydnabod casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol, sef y byddai effeithiau posibl y Cynllun ar gadwraeth natur yn cael eu lleihau i lefelau na fyddent yn arwyddocaol pe cyflwynid yr amrywiol fesurau lliniaru a chydbwyso. Mae'r Arolygydd yn cydnabod i'r Datganiad i Lywio Asesiad Priodol ddod i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd Ewropeaidd pe cyflwynid y mesurau lliniaru priodol a nodwyd ac a ddisgrifiwyd, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â'r casgliad hwn (paragraff 8.24).
21. Mae'r Arolygydd yn cydnabod (paragraff 8.34) bod angen sicrhau cydbwysedd priodol rhwng amcanion polisi economaidd sy'n ceisio sicrhau cysylltiadau trafndiaeth gwell ar y ffyrdd a'r rhai sy'n ymwneud ag amcanion amgylcheddol megis lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwarchod natur, asedau treftadaeth a'r dirwedd.
22. Mae'r Arolygydd yn derbyn y bydd effeithiau gweddilliol andwyol ar y dirwedd ac o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr ond mae o'r farn bod yr effeithiau amgylcheddol wedi cael eu hystyried yn llawn ac wedi cael eu gwerthuso'n briodol i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng datblygu economaidd, diogelu'r amgylchedd a chynnal ansawdd bywyd yn y dyfodol. Daw'r Arolygydd i'r casgliad bod buddiannau'r Cynllun yn drech na'r effeithiau gweddilliol.

23. Ym mharagraff 8.32, mae'r Arolygydd yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymadau amgylcheddol yn y Datganiad Amgylcheddol a'r Datganiad i Lywio Asesiad Priodol, a gofnodir yn y Gofrestr o Ymrwymadau Amgylcheddol. Mae'r Arolygydd yn cydnabod y bydd yr ymrwymadau hynny sy'n ymwneud ag adeiladu yn cael eu rhoi ar waith drwy'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu ac y bydd rhwymedigaeth gytundebol ar y contractwyr a benodir gan Lywodraeth Cymru i gydymffurfio ag ymrwymadau'r Gofrestr o Ymrwymadau Amgylcheddol a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu.

Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol

24. Mae'r Arolygydd yn nodi bod effeithiau mawr y Cynllun ar y dirwedd wedi'u cyfyngu i ardal leol (paragraff 8.27) ac y byddent yn codi mewn un o'r 18 o'r ardaloedd cymeriad tirwedd yn ardal yr astudiaeth. Mae'r Arolygydd wedi'i fodloni bod dulliau dylunio'r Cynllun yn ceisio ymdrin â'r effeithiau hyn drwy dechnegau peirianeg a thirlunio priodol. O ran eiddo preswyl, mae'r Arolygydd yn nodi mai cyfyngedig fyddai effaith y Cynllun ar eiddo o'r fath (paragraff 8.28). Yn benodol, mae'r Arolygydd yn nodi bod yr effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol wedi cael eu hasesu ar gyfer Cartref Gofal Blaenmarlais, sy'n gymharol agos i'r llwybr (paragraff 8.29) a daeth i'r casgliad na fyddai modd gweld yr A40 arfaethedig o Gartref Gofal Blaenmarlais na'r anheddau eraill i'r de o'r bont arfaethedig ar Redstone Road.

Treftadaeth Ddiwylliannol

25. Mae'r Arolygydd yn crynhoi ei ystyriaethau o ran treftadaeth ddiwylliannol ym mharagraff 8.30 ac 8.31 o'r Adroddiad. Mae'r Arolygydd yn nodi y byddai'r effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i olion archaeolegol claddedig posibl a bod llinell y ffordd arfaethedig wedi cael ei dewis i osgoi'r olion claddedig hyd y gellir. Mae'r Arolygydd hefyd yn nodi y bydd rhaglen o werthuso a lliniaru archaeolegol yn cael ei chynnal fel rhan o'r Cynllun. Mae'r Arolygydd yn nodi na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw henebion cofrestredig a braidd ddim effaith ar ddau adeilad rhestredig yng Nghartref Gofal Blaenmarlais, y mae'n rhaid eu pwysu fel rhan o'r cydbwysedd cyffredinol. Ym mharagraff 8.31, daw'r Arolygydd i'r casgliad bod y Cynllun felly wedi mynd i'r afael â gofynion deddfwriaethol a pholisi mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol hyd y gellir.

Tir Amaethyddol

26. Mae'r Arolygydd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi asesu effeithiau'r Cynllun ar amaethyddiaeth mewn adroddiad manwl a daw i'r casgliad (paragraff 8.22), er y byddai'r pum daliad fferm y mae'r Cynllun yn effeithio arnynt yn gweld newidiadau o ran eu gweithrediadau o ddydd i ddydd, na fyddai'n effeithio ar eu hyfywedd. Mae'r Arolygydd yn nodi canfyddiadau'r adroddiad ar amaethyddiaeth sy'n nodi na fyddai unrhyw dir a gâi ei golli o ganlyniad i'r Cynllun yn y categori gorau neu fwyaf amlbwrpas ac y byddai colli tir o'r fath yn fân effaith andwyol. Mae'r Arolygydd yn nodi ymhellach fod tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn dangos bod y Cynllun wedi cael ei ddylunio i leihau'r effaith ar fusnesau amaethyddol i'r eithaf a sicrhau y byddai mynediad i ffermydd a chaeau o hyd. Daw'r Arolygydd i'r casgliad na fyddai effaith y Cynllun ar amaethyddiaeth yn arwyddocaol.

Sŵn, Dirgryndod ac Ansawdd Aer

27. Mae'r Arolygydd o'r farn bod effeithiau'r Cynllun o ran sŵn, dirgryndod ac ansawdd aer wedi cael eu hasesu'n gynhwysfawr (paragraff 8.25) ac mae'n nodi bod y Datganiad Amgylcheddol yn dangos na fyddai unrhyw effeithiau o ganlyniad i sŵn neu ddirgryndod adeiladu yn codi (drwy sicrhau y byddai dulliau gweithio ymarferol gorau yn cael eu defnyddio). Mae'r Arolygydd yn cydnabod, er y byddai lefelau sŵn gweithredol yn cynyddu mewn nifer bach o eiddo, aseswyd nad oedd yr effeithiau yn rhai sylweddol. Yn benodol, mae'r Arolygydd yn nodi bod yr effaith bosibl ar Gartref Gofal Blaenmarlais wedi cael ei hystyried yn ofalus (paragraff 8.29) a daw i'r casgliad bod y dystiolaeth yn dangos na fyddai unrhyw effeithiau andwyol hirdymor sylweddol ar Gartref Gofal Blaenmarlais o ganlyniad i effeithiau sŵn neu ansawdd aer.

Amrywiadau

28. Ym mharagraff 8.16, mae'r Arolygydd yn cydnabod bod y Cynllun wedi'i ddylunio i raddau helaeth i gyrraedd y safonau a nodir yn y Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd. Mae'r Arolygydd yn nodi bod angen un amrywiad o'r safon a bod hyn wedi cael ei gymeradwyo gan y Panel Adolygu Technegol yn Adran Seilwaith Economaidd Llywodraeth Cymru

Datblygu Cynaliadwy

29. Ym mharagraff 8.19 ac 8.20 mae'r Arolygydd yn cydnabod bod dystiolaeth Llywodraeth Cymru yn dangos sut mae'r Cynllun yn cyfrannu at y nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut mae'r Cynllun wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r pum ffordd o weithio. Mae'r Arolygydd yn nodi bod yr adroddiad ar ddatblygu cynaliadwy yn ystyried y Cynllun yn erbyn ymrwymadau Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a daw i'r casgliad bod cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf wedi'i dangos yn briodol.
30. Mae'r Arolygydd yn nodi y byddai'r Cynllun yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gyflawni'r rhan fwyaf o'r amcanion llesiant ond na fyddai'n helpu i gyflawni amcanion newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, mae'r Arolygydd yn cydnabod bod yn rhaid rhoi sylw i gyfraniad y Cynllun at nodau llesiant eraill a dod i gasgliad cytbwys gan nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i bob cam gweithredu gyfrannu at y nodau yn yr un modd.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

31. Mae Arolygydd o'r farn (paragraff 8.21) y byddai'r cynigion ar gyfer teithio llesol a thynnu statws cefnffordd yn ôl ar gyfer yr A40 bresennol yn sicrhau y byddai'r cyfleusterau ar gyfer cerdded a beicio yn yr ardal yn cael eu gwella. Mae'r Arolygydd yn cydnabod ymwneud Cyngor Sir Penfro yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun ac y byddai'r cyfleusterau teithio llesol a gâi eu darparu yn cyd-fynd â chynlluniau'r Cyngor.

Gwrthwynebiadau Unigol

32. Mae'r Arolygydd wedi cofnodi ei gasgliadau mewn perthynas â gwrthwynebiadau unigol ym mharagraffau 8.35 i 8.55 o'i Adroddiad a dylid darllen y paragraffau hyn yn unol â hyn. Mae materion penodol sy'n codi o gasgliadau'r Arolygydd wedi cael eu hystyried gan y Gweinidog fel y'u cofnodwyd ym mharagraffau 55 i 66 o'r llythyr penderfyniad hwn.

Dewisiadau Amgen a Ystyriwyd

33. Mewn perthynas â phob dewis amgen a ystyriwyd yn yr Ymchwiliad (Dewis Amgen 1A, 1B a 2), daeth yr Arolygydd i'r casgliad y byddai'r effeithiau andwyol a nodwyd (a grynhwir ym mharagraffau 8.59-8.50 ac 8.64 o'r Adroddiad yn y drefn honno) yn drech o dipyn na'u buddiannau. O ran dileu'r lôn troi i'r dde, a gynigwyd yn y dewisiadau amgen, mae'r Arolygydd yn nodi (paragraff 8.57) y byddai cyffordd yr ynys ffug a gynigir yn y Cynllun yn cael ei dylunio yn unol â safonau dylunio modern ac y byddai'n cynnwys lôn troi i'r dde hael gyda digon o le i ffurfio ciw. O ganlyniad, Byddai unrhyw fuddiannau diogelwch o ganlyniad i ddileu'r lôn troi i'r dde yn fach iawn ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth a oedd yn dadlau'n groes i'r casgliad hwn. Fel y cyfryw, mae'r Arolygydd yn argymhell na ddylid ystyried unrhyw un o'r dewisiadau amgen hyn ymhellach.

ARGYMHELLION A CHASGLIADAU CYFFREDINOL YR AROLYGYDD AR GYFER Y GORCHMYNION A'R CYNLLUN

34. Cofnodir casgliadau cyffredinol yr Arolygydd ynglŷn â'r Cynllun ym mharagraffau 8.74 i 8.78 o'r Adroddiad.
35. Yn Adran 9 o'r Adroddiad, mae'r Arolygydd yn argymhell y dylid gwneud y Gorchymynion drafft gan ymgorffori'r addasiadau i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol fel y'u rhestrwyd yn Atodiad B i'r llythyr penderfyniad hwn.

Gorchymyn Llinell

36. Daw'r Arolygydd i'r casgliad y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r rhwydwaith cefnffyrdd, gan gofio gofynion polisi cynllunio lleol a chenedlaethol, gan gynnwys gofynion amaethyddiaeth, yn fuddiol ac er budd y cyhoedd at ddibenion gwella'r system genedlaethol o lwybrau ar gyfer traffig trwodd yng Nghymru ac argymhellodd y dylid gwneud y Gorchymyn Llinell heb unrhyw addasiadau awgrymedig (paragraffau 8.65, 8.66 ac adran 9 o'r Adroddiad).

Gorchymyn Prynu Gorfodol

37. Yn amodol ar yr addasiadau, argymhellodd yr Arolygydd y dylid gwneud y Gorchymyn Prynu Gorfodol. Mae'r Arolygydd wedi'i fodloni bod y profion a nodwyd ym mharagraff 8.3 o'i Adroddiad yn cael eu bodloni ac felly fod angen cymhellol dros brynu gorfodol er budd y cyhoedd sy'n cyfiawnhau ymyrryd â hawliau preifat y rhai â buddiant yn y tir (paragraffau 8.67 – 8.70 ac adran 9 o'r Adroddiad).

Gorchymyn Ffyrdd Ymyl

38. Yn amodol ar yr addasiadau, mae'r Arolygydd yn argymhell y dylid gwneud y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl. Daw'r Arolygydd i'r casgliad bod y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl fel y'i haddaswyd yn gwneud darpariaeth amgen eithaf cyfleus mewn perthynas â phriffyrdd a ffyrdd mynediad preifat (paragraffau 8.71 – 8.73 ac adran 9 o'r Adroddiad).

Casgliadau ynglŷn â'r Cynllun

39. Mae'r Arolygydd o'r farn bod achos cymhellol dros roi'r Cynllun ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd; daw'r Arolygydd i'r casgliad mai'r Cynllun fyddai'r ffordd orau o gyflawni'r amcanion ac y byddai hyn o fudd sylweddol i'r cyhoedd. At hynny, mae'r Arolygydd yn nodi bod budd y cyhoedd o'r fath yn drech na'r cynnydd bach mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a'r effaith ar leoliad adeilad rhestredig a'r dirwedd o ganlyniad i'r Cynllun.

YSTYRIAETH Y GWEINIDOG

MATERION PENODOL

Buddiannau Economaidd, Cymdeithasol a Diogelwch

40. Mae'r Gweinidog yn cytuno â'r Arolygydd y byddai'r Cynllun yn gwella diogelwch a dibynadwyedd amseroedd teithio, a hefyd, y byddai'n arwain at gyfleusterau gwell i gerddwyr a beicwyr.

Polisi Cenedlaethol a Lleol

41. Mae'r Gweinidog yn nodi casgliad yr Arolygydd bod y Cynllun yn taro cydbwysedd priodol rhwng amcanion polisi economaidd sy'n ceisio gwella diogelwch ar y priffyrdd a sicrhau gwell cysylltiadau trafnidiaeth ar y ffyrdd a'r rhai sy'n ymwneud ag amcanion amgylcheddol megis lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwarchod natur, asedau treftadaeth a'r dirwedd. Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi casgliad yr Arolygydd bod buddiannau'r Cynllun yn drech na'r effeithiau gweddilliol andwyol. Mae'r Gweinidog yn cytuno â'r casgliadau hyn ac mae o'r farn bod y Cynllun yn gyson â pholisi cenedlaethol a lleol a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Cyllido

42. Mae'r Gweinidog yn cadarnhau y byddai'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd ar gael i'r Cynllun er bod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd; mae'r Gweinidog yn nodi y byddai'r cyllid hwn yn talu am tua dwy ran o dair o gyfanswm cost y Cynllun.

Effeithiau Amgylcheddol, Datganiad Amgylcheddol a Datganiad i Lywio Asesiad Priodol

43. Mae'r Gweinidog yn nodi bod yr Arolygydd o'r farn bod yr effaith ar yr amgylchedd naturiol wedi cael ei hasesu'n gynhwysfawr ac y byddai effeithiau posibl y Cynllun ar gadwraeth natur yn cael eu lleihau i lefelau na fyddant yn sylweddol pe bai'r amrywiol fesurau lliniaru a chydbwyso a gynigir yn cael eu rhoi ar waith. At hynny, mae'r Gweinidog yn nodi i'r Datganiad Amgylcheddol ddod i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd Ewropeaidd pe bai'r mesurau lliniaru priodol a nodwyd ac a ddisgrifiwyd yn cael eu rhoi ar waith.
44. Mae'r Gweinidog yn nodi cydnabyddiaeth yr Arolygydd y bydd effeithiau gweddilliol andwyol ar y dirwedd, gwrychoedd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr ond mae o'r farn bod yr effeithiau amgylcheddol wedi cael eu hystyried yn llawn a'u gwerthuso'n briodol er mwyn taro cydbwysedd priodol rhwng sicrhau datblygu economaidd a gwarchod yr amgylchedd.
45. O ystyried yr holl ffactorau perthnasol, mae'r Gweinidog wedi ystyried yn ofalus yr achos dros y Cynllun, y Datganiad Amgylcheddol, y Datganiad i Lywio Asesiad Priodol a'r holl safbwyntiau a fynegwyd ynglŷn â'r Datganiad Amgylcheddol a'r Datganiad i Lywio Asesiad Priodol gan aelodau o'r cyhoedd a chyrff ymgynghori. Mae'r Gweinidog wedi'i fodloni iddynt gael eu cyhoeddi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol perthnasol a bod y sylwadau arnynt wedi cael eu hystyried yn ofalus

ac yn briodol ac nad oes unrhyw un o'r materion a godwyd yn gofyn am newidiadau pellach i gynigion/mesurau lliniaru'r Cynllun nac felly i'r Datganiad Amgylcheddol. Mae'r Gweinidog yn derbyn bod angen y Cynllun hwn er mwyn mynd i'r afael â'r problemau presennol a amlinellir ym mharagraff 5 o'r llythyr penderfyniad hwn, ond bod yn rhaid cydbwysu'r angen hwn ag effaith amgylcheddol y Cynllun ac unrhyw safbwyntiau a fynegwyd gan aelodau o'r cyhoedd a chyrff ymgynghori.

46. Mae'r Gweinidog yn nodi casgliadau'r Arolygydd mewn perthynas â'r Datganiad i Lywio Asesiad Priodol 'that the impact on ecology has been adequately addressed in the Scheme and the proposed mitigation measures' (paragraff 8.23) ac mae wedi'i fodloni yr aed i'r afael â'r sylwadau a godwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn ffordd foddhaol. Mae'r Gweinidog wedi'i fodloni hefyd fod yr Asesiad o Oblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd yn y Datganiad i Lywio Asesiad Priodol yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r Gweinidog yn nodi bod Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi'i fodloni na fyddai'r Cynllun yn cael effaith andwyol ar unrhyw Safleoedd Ewropeaidd ac, yn unol â hynny, y gall y Cynllun fynd rhagddo yn unol â Rheoliadau 63, 64, 68 ac 87 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol

47. Mae'r Gweinidog yn nodi sylwadau a chasgliadau'r Arolygydd o ran yr effeithiau ar Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ac mae'r ffaith bod proses o ymgysylltu ac ymgynghori â Chomisiwn Dylunio Cymru ar yr agweddau esthetig ar y Cynllun wedi mynd rhagddi ers cam cynnar yn rhoi sicrwydd iddo.

Treftadaeth Ddiwylliannol

48. Mae'r Gweinidog yn nodi bod yr Arolygydd wedi'i fodloni bod y Cynllun yn bodloni gofynion deddfwriaethol a pholisi mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol ac yn cydnabod y byddai'r effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol wedi'u cyfyngu i olion archaeolegol claddedig posibl i raddau helaeth. Mae'r ffaith bod CADW hefyd wedi dod i'r casgliad y byddai effeithiau gweledol ar leoliad y ddau adeilad rhestredig yn rhai mân ac na fyddai fawr ddim effeithiau sŵn arnynt wedi rhoi sicrwydd i'r Gweinidog.

Tir Amaethyddol

49. Yng nghyd-destun yr economi amaethyddol, wledig, mae'r Gweinidog yn cydnabod bod yr Arolygydd o'r farn bod effeithiau'r Cynllun ar fusnesau fferm wedi cael eu hasesu'n gynhwysfawr a bod casgliadau'r Arolygydd wedi rhoi sicrwydd i'r Gweinidog, er y byddai effaith gyffredinol y Cynllun ar amaethyddiaeth yn sylweddol o ran gweithrediadau o ddydd i ddydd, na fyddai'r Cynllun yn peryglu hyfywedd y daliadau amaethyddol dan sylw. Mae'r Gweinidog yn nodi y byddai'r tir a gollid o ganlyniad i'r Cynllun yn cael mân effaith andwyol ac mae casgliad cyffredinol yr Arolygydd yn rhoi sicrwydd iddo na fyddai effaith y Cynllun ar amaethyddiaeth yn sylweddol. Mae'r Gweinidog yn cytuno â chasgliadau'r Arolygydd yn hyn o beth.

Sŵn, Dirgryndod ac Ansawdd Aer

50. Mae'r Gweinidog yn nodi'r datganiadau yn Adroddiad yr Arolygydd i'r Datganiad Amgylcheddol ddod i'r casgliad na fyddai sŵn na dirgryndod gwaith adeiladu yn cael unrhyw effeithiau sylweddol o ganlyniad i'r Cynllun (paragraff 8.25). Mae'n dda gan y Gweinidog nodi'r datganiadau yn Adroddiad yr Arolygydd y byddai'r Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd aer lleol ar gyfer y mwyafrif o drigolion yn yr ardal (paragraff 8.26).

Amrywiadau

51. Mae'r Gweinidog yn nodi bod angen amrywio un safon a bod amrywiad o'r fath wedi cael ei gymeradwyo ar ôl craffu gofalus gan Banel Adolygu Technegol Llywodraeth Cymru (paragraff 8.16).

Datblygu Cynaliadwy

52. Mae'r Gweinidog wedi'i fodloni bod y Cynllun yn gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn nodi i adroddiad ar ddatblygu cynaliadwy gael ei gyflwyno a'i ystyried yn fanwl yn yr Ymchwiliad. Yn benodol, mae'r Gweinidog yn nodi'r achos a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru bod y Cynllun yn ceisio gwneud cyfraniadau cadarnhaol tuag at gyflawni chwech o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Mae'r Gweinidog yn nodi casgliad yr Arolygydd, er nad yw'n cyfrannu at un o'r saith nod llesiant, y dylid rhoi sylw o hyd i gyfraniad y Cynllun at y chwe nod llesiant arall cyn cyrraedd casgliad cytbwys, yn enwedig o ystyried nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i bob cam gyfrannu at yr holl nodau yn yr un modd.
53. Mae'r ffaith bod yr Arolygydd wedi dod i'r casgliad bod cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei ddangos wedi rhoi sicrwydd i'r Gweinidog ac mae'n cytuno â'r Arolygydd yn hyn o beth. Mae'r Gweinidog o'r farn bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei hystyried yn llawn wrth baratoi'r Cynllun, yn ystod yr Ymchwiliad ac yn yr Adroddiad ac mae'r Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wneud ei benderfyniad.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

54. Mae'r Gweinidog yn nodi'r cynigion o ran teithio llesol sy'n rhan o'r Cynllun ac mae'n cytuno â'r Arolygydd y byddai'r cynigion o ran teithio llesol a thynnu statws cefnffordd yr A40 bresennol yn ôl yn sicrhau y byddai cyfleusterau cerdded a beicio yn yr ardal yn llawer gwell. At hynny, mae'r Gweinidog yn cydnabod bod yr Arolygydd o'r farn bod angen y mesurau hyn er mwyn cyflawni amcanion y Cynllun ac mae'r Gweinidog yn cytuno y dylai'r mesurau hyn gael eu rhoi ar waith fel rhan o'r Cynllun cyffredinol.

Gwrthwynebiadau Unigol i'r Ymchwiliad/Materion

Cyfeillion y Ddaear, Sir Benfro (PFoE)

55. Mae'r Gweinidog yn fodlon bod gwrthwynebiadau PFoE wedi cael eu hystyried yn briodol gan yr Arolygydd ym mharagraffau 8.35 i 8.42.
56. Mae'r Gweinidog yn cytuno â datganiad yr Arolygydd nad yw'r datganiad ynghylch argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019 wedi newid y datganiadau polisi o blaid y Cynllun. Fel y'i nodwyd yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru, ac fel y'i cofnodwyd gan yr Arolygydd ym mharagraff 8.37, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnig gwaharddiad ar adeiladu unrhyw ffyrdd newydd.
57. Mae'r Gweinidog wedi'i fodloni bod y Cynllun yn gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n fodlon bod cydymffurfiaeth y Cynllun â gofynion y ddeddf honno wedi cael ei dangos yn briodol.
58. Mae'r Gweinidog yn nodi adroddiad yr Arolygydd (paragraffau 8.23 ac 8.24) bod effeithiau amgylcheddol ac ecolegol wedi cael eu hystyried yn y Datganiad Amgylcheddol, y Datganiad i Lywio Asesiad Priodol a'r Cynllun Lliniaru ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir. At hynny, mae'r ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn y Datganiad i Lywio Asesiad Priodol ac nad yw'n gwrthwynebu'r Cynllun yn rhoi sicrwydd i'r Gweinidog. Mae'r Gweinidog yn cytuno â chasgliad yr Arolygydd bod y Datganiad Amgylcheddol a'r Datganiad i Lywio Asesiad Priodol ar gyfer y Cynllun wedi mynd i'r afael â'r effaith ar ecoleg yn ddigonol a bod y mesurau lliniaru arfaethedig yn foddhaol. Mae'r ffaith y byddai'r mesurau lliniaru hyn hefyd yn cynnwys elfen o wella o ran creu cynefinoedd newydd yn rhoi sicrwydd i'r Gweinidog.

Bettina Becker a Stephen Jennings

59. Mae'r Gweinidog yn nodi bod y materion a godwyd gan Bettina Becker a Stephen Jennings wedi cael eu hystyried gan yr Arolygydd ym mharagraffau 8.43 i 8.45 ac yn cytuno â chasgliadau'r Arolygydd.
60. O ran cyfeiriad y gwrthwynebydd at newid trefn y Gyffordd bresennol yn Redstone Cross a'r cynnig i godi trosbont, y cyfeirir ato hefyd fel Dewis Amgen 2 yn Adroddiad yr Arolygydd, mae'r Gweinidog yn cytuno â chasgliad yr Arolygydd nad yw hyn yn ateb dichonadwy i ddatrys y problemau a nodwyd ar hyd y rhan hon o'r A40. Mae'r Gweinidog hefyd yn pryderu am effeithiau posibl y cynnig hwn ar ddargyfeirio cerbydau nwyddau mawr drwy ganol tref Arberth.
61. Mae'r Gweinidog yn nodi casgliad yr Arolygydd na fyddai unrhyw effeithiau sŵn andwyol sylweddol na dirywiad mewn ansawdd aer o ganlyniad i'r Cynllun, na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol ar amaethyddiaeth ac y byddai effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol y Cynllun wedi'u cyfyngu o ran maint ac y byddent yn cael eu lliniaru'n briodol.

Mr Malcolm Lewis

62. Mae'r Gweinidog yn nodi bod prif wrthwynebiad Mr Lewis yn ymwneud â chaffael coetir sy'n eiddo iddo, i'w ddefnyddio at ddibenion lliniaru hanfodol. Er bod y Gweinidog yn cydnabod safbwynt Mr Lewis, mae'r Gweinidog yn cytuno â chasgliad yr Arolygydd ym mharagraff 8.46, fod angen plotiau 1/4u, 1/4v, 1/4w ac 1/4z ar gyfer mesurau lliniaru hanfodol i warchod rhywogaethau bywyd gwyllt gwarchodedig. Mae'r Gweinidog yn cytuno â'r Arolygydd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gadw rheolaeth lawn dros yr ardal hon o goetir er mwyn sicrhau'r gofyniad arni am fesurau lliniaru priodol yn yr hirdymor.

Revelation Clothing

63. Mae'r Gweinidog wedi ystyried safbwynt y gwrthwynebydd ac mae'n cytuno â'r Arolygydd nad yw'r ffordd fynediad newydd i'r safle yn bellter ychwanegol gormodol. Mae'r Gweinidog yn cytuno â chasgliadau'r Arolygydd ac mae wedi'i fodloni bod y gwrthwynebiad hwn wedi cael ei ystyried yn briodol.

Richard a Judith Jones

64. Mae'r Gweinidog yn nodi bod y materion a godwyd gan Richard a Judith Jones wedi cael eu hystyried gan yr Arolygydd ym mharagraffau 8.50 i 8.51 ac yn cytuno â chasgliadau'r Arolygydd.

Trigolion Redstone Road

65. Mae'r Gweinidog yn nodi mai materion i Gyngor Sir Penfro fel yr awdurdod priffyrdd lleol yw'r rhai a godwyd gan y gwrthwynebwyr hynny y cyfeiriwyd atynt fel "Redstone Road Residents". Mae'r Gweinidog yn cydnabod bod y materion hyn y tu allan i gwmpas ystyriaethau'r Ymchwiliad ond mae'n dda ganddo nodi bod Cyngor Sir Penfro wedi ystyried safbwyntiau'r gwrthwynebwyr hyn ac wedi nodi ei fod yn cytuno mewn egwyddor â'r cynigion, yn amodol ar y prosesau statudol perthnasol.

Mr Thomas Wheeler

66. Mae'r Gweinidog wedi nodi'r pryderon a godwyd gan y gwrthwynebydd a chasgliadau'r Arolygydd ym mharagraffu 8.53 i 8.55 mewn perthynas â nhw. Mae'r Gweinidog yn cydnabod y byddai buddiant clir o ran bioamrywiaeth o ganlyniad i'r Cynllun, a bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr Ymchwiliad mewn perthynas â'r dadansoddiad sensitifedd ar ddifrifoldeb damweiniau a'r terfyn cyflymder is ar yr A40 bresennol wedi cryfhau'r achos economaidd dros y Cynllun.

PENDERFYNIAD Y GWEINIDOG

67. Wrth ystyried a ddylai arfer ei ddisgresiwn, mae'r Gweinidog wedi'i fodloni ei fod wedi cael digon o wybodaeth ger ei fron i roi ystyriaeth lawn i'r materion.
68. Mae'r Gweinidog yn cytuno â chanfyddiadau cyffredinol yr Arolygydd ac mae wedi derbyn argymhellion yr Arolygydd yn Adran 9 o'i adroddiad y gellir gwneud y Gorchmynion drafft gan ymgorffori'r addasiadau yn Atodiad B i'r llythyr penderfyniad hwn.
69. Mae'r Gweinidog yn nodi bod yr Arolygydd wedi craffu ar yr holl addasiadau a restrir yn Atodiad B yn ystod yr Ymchwiliad ac nad oes unrhyw addasiadau ychwanegol wedi cael eu cynnig neu na chytunwyd ar unrhyw rai ychwanegol ers i'r Ymchwiliad gau.
70. Wrth dderbyn argymhellion yr Arolygydd, mae'r Gweinidog wedi ystyried yn ofalus a oedd y dibenion y paratowyd y Gorchymyn Prynu Gorfodol ar eu cyfer a'r addasiadau a gyflwynwyd yn yr Ymchwiliad a'r mân addasiadau y cytunwyd arnynt â'r perchenogion tir, yn ddigon i gyfiawnhau ymyrryd â hawliau dynol y rhai â buddiannau yn y tiroedd dan sylw ac y bydd y Cynllun fel arall yn effeithio arnynt. Mae'r Gweinidog wedi'i fodloni y gellir cyfiawnhau'r fath ymyrryd â buddiannau preifat a bod achos cymhellol er budd y cyhoedd i'r tir, sy'n destun y Gorchymyn Prynu Gorfodol, gael ei gaffael yn orfodol er mwyn cyflawni'r Cynllun (gan ystyried nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Mae'r Gweinidog wedi'i fodloni na ellid cyflawni dibenion y Gorchmynion drwy ddulliau eraill, bod syniad clir ynghylch sut y bwriedir defnyddio'r tir, bod angen yr holl dir ar gyfer y Cynllun, ac y byddai'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Cynllun yn debygol o fod ar gael o fewn terfyn amser rhesymol a'i bod yn annhebygol y byddai unrhyw rwystrau sy'n atal y Cynllun rhag cael ei roi ar waith. Yn benodol, mae wedi ystyried darpariaethau Erthygl 8 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac Erthygl 1 o'r confensiwn hwnnw. Yn hyn o beth, mae'r Gweinidog wedi'i fodloni bod cydbwysedd teg wedi'i sicrhau rhwng y defnydd o bwerau prynu gorfodol ac ymyrryd â'r hawliau hynny wrth wneud y Gorchymyn Prynu Gorfodol.
71. **O ganlyniad, mae'r Gweinidog wedi penderfynu y gellir gwneud y Gorchmynion drafft gan ymgorffori'r addasiadau a nodir yn Atodiad B i'r llythyr penderfyniad hwn.** Daw'r Gorchmynion yn weithredol ar y dyddiad y bydd yr hysbysiad sy'n cyhoeddi eu bod yn cael eu gwneud yn cael ei gyhoeddi gyntaf.


CYFLEU'R PENDERFYNIAD

72. Mae'r llythyr penderfyniad hwn, yr Adroddiad a Hysbysiad Cyhoeddus y Datganiad Amgylcheddol amgaeedig wedi cael eu hanfon at bawb a fynegodd farn ar y Cynllun a phartïon eraill â diddordeb. Mae copïau o'r llythyr penderfyniad hwn, yr Adroddiad a'r Hysbysiad Cyhoeddi amgaeedig, y Gorchmynion a wnaed ynghyd â'r Datganiad Amgylcheddol a'r Datganiad i Lywio Asesiad Priodol a'u hatodlenni hefyd ar gael i'w harchwilio yn y lleoliadau adneuo canlynol tan 5 Mai 2021:
- Gorsaf Betrol Gwasanaethau Preseli, Llanddewi Felffre, Arberth SA67 7PD (yn ystod oriau busnes arferol y busnes hwn);
 - Neuadd y Frenhines, 44 y Stryd Fawr, Arberth, SA67 7AS. Dim ond drwy apwyntiad y gellir gweld y dogfennau a dylid gwneud trefniadau drwy'r Swyddog Cyswllt Cyhoeddus, Mr Martin Gallimore, drwy ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt ganlynol: ffôn symudol 07923 887119 ac e-bost a40enquiries@arup.com

HAWL I HERIO

73. Os bydd unrhyw berson sydd wedi cael ei dramgwyddo gan y Gorchymyn Llinell neu'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl am amau eu dilysrwydd, neu unrhyw rai o'r darpariaethau a geir ynddynt, ar y sail:
- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980; neu
 - b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion Deddf Priffyrdd 1980 na rheoliadau a wnaed o dan y ddeddf honno,
- y gall y person hwnnw, o fewn 6 wythnos ar ôl iddynt ddod yn weithredol wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.
74. Os oes unrhyw berson sydd wedi cael ei dramgwyddo gan y Gorchymyn Prynu Gorfodol am amau dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw rai o'r darpariaethau a geir ynddo, ar y sail:
- a. nad oes pŵer i roi'r awdurdod i brynu'n orfodol a roddir drwy hyn o dan Ddeddf Caffael Tir 1981 nac unrhyw gyfryw ddeddfiad ag y'i crybwyllwyd yn adran 1(1) o Ddeddf Caffael Tir 1981; neu
 - b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad perthnasol,
- y gall y person hwnnw, o fewn 6 wythnos ar ôl iddo ddod yn weithredol wneud cais i'r Uchel Lys.

Yn gywir



ANDY FALLEYN

Dirprwy Gyfarwyddwr

Is-adran Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

Rhestr Ddosbarthu Cyrff Anstatudol

Derbynnydd
HERE Maps
Mrs B Smith
Mr Ian Gallagher, Swyddog Traffig
Barbara Morgan
Asset Protection
Ysgrifennydd y Cwmni
Mr Lewis Brencher, Pennaeth Cyfathrebu
Mr Roland Seber, Swyddog Datblygu Ymgyrchoedd
Y Swyddfa Genedlaethol
Felodrom Cenedlaethol Cymru
-
Mr Henry Whittaker, Mynediad a Hawliau Tramwy
Mrs Jeanne Hyett, Swyddog Mynediad a Llwybrau Ceffylau -
-
Yr Is-adran Gweithrediadau Maes
Mr P N Scott – Y Gyfarwyddiaeth Gosodiadau Peryglus
Fiona McCarthy – Cydgysylltydd Cymorth i Fusnesau
Mr Peter Ogden
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
-
-
Swyddog Defnydd Tir
Liz Donnelly
Swyddog Cymru
Ysgrifennydd Cyffredinol
Mr G Roberts – Rheolwr Masnachol Rhanbarthol
-
Rebecca Mattingley
Rheolwr Rhanbarth
-
A D Pullen-Jones
Stuart Dodwell – Swyddog Hawliau Tramwy
CBI Cymru
Nigel Keane - Uwch-Gynghorydd Polisi
Catriona Devon – Cynorthwydd Data

E-bost
Mr Mark Miller
HERE Maps
Mike Pitt
-
Philip Anraham
Jane Donald

Sefydliad
T4 Quay Plaza
NAVTEQ
Cymdeithas Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Network Rail
Network Rail
Network Rail Infrastructure Limited
Trenau Arriva Cymru
Right to Ride Network
Cycling UK
Beicio Cymru
Sustrans Cymru
Cymdeithas Ceffylau Prydain
Cymdeithas Ceffylau Prydain
Yr Awdurdod Glo
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Ymgych Diogelu Cymru Wledig
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
NFU Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Lovell Johns Limited
Y Cerddwyr
Cymdeithas Mannau Agored
Dyfrffyrdd Prydain
Dyfrffyrdd Prydain (De-orllewin)
Cyngor Chwaraeon Cymru
Cymdeithas Cludo Nwyddau ar Loriau Cyf
Asiantaeth Tir y Weinyddiaeth Amddiffyn
Asiant Tir y Weinyddiaeth Amddiffyn
WTRA Ltd
CBI Cymru
Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru Cyfyngedig
Premier Planning Consultancy

GIG Cymru
HERE Maps
Cyfeillion y Ddaear Cymru
Cyfeillion y Ddaear Cymru
Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru
Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru

ATODIAD B

Taflenni Clawr Addasiadau

Yr A40 rhwng Penblewin a Redstone Cross

ADDASIAD 01

Tynnwyd yr addasiad hwn yn ôl gan Lywodraeth Cymru gan na chytunodd perchennog y tir â'r addasiad.

ADDASIAD 02

Gorchymyn/Gorchmynion drafft perthnasol

- Gorchymyn Ffyrdd Ymyl
- Gorchymyn Prynu Gorfodol

Ymatebwyr perthnasol:

- R0022 – Raymond Peter Harries

Amlinelliad:

Cododd RP Harries bryderon ynglŷn â lleoliad Pwll Gwanhau C. Mae Pwll C wedi cael ei adleoli i'r gogledd i'r lleoliad a gynigiwyd yn flaenorol iddo.

Telerau Addasiad i'r Gorchmynion Drafft Cyhoeddedig

Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft

Cynigir Ffordd Fynediad Breifat newydd i gae mynediad. Cyflwyno darn o Gynllun Addasiad 2 yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn lle Cynllun Safle 1A yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft. Ar Atodlen 1 i Gynllun Safle 1A, o dan 'Rhif Cyfeirnod Ffordd Fynediad Breifat Newydd', ychwaneger 1/11a.

Gorchymyn Prynu Gorfodol

Cyflwyno Darn Rhif 02 Addasiad Tabl 1 yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn lle'r hyn a gofnodwyd yn Nhabl 1 yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft.

Bydd angen gwneud y newidiadau canlynol i'r Atodlen i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol cyhoeddedig drafft:

Tabl 1:

Plot 1/3f yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Lleihau'r plot i 1273 metr sgwâr

Plot 1/3j yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Cynyddu'r plot i 13563 metr sgwâr

Plot 1/3u yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Yr A40 rhwng Penblewin a Redstone Cross

ADDASIAD 03

Gorchymyn/Gorchmynion drafft perthnasol

- Gorchymyn Ffyrdd Ymyl
- Gorchymyn Prynu Gorfodol

Ymatebwyr perthnasol:

- R0022 – Raymond Peter Harries

Amlinelliaid:

Byddai Ffordd Fynediad Breifat i'r cae yn cael ei chau ar ffin orllewinol y B4313 bresennol. Darparwyd Ffordd Fynediad Breifat Newydd arfaethedig gyfatebol ar gyfer Mr Harries ac mae maint Ffordd Fynediad Breifat Newydd a gynigwyd yn flaenorol ar y cyd â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft wedi cael ei leihau.

Telerau Addasiad i'r Gorchmynion Drafft Cyhoeddedig

Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft

Cynigir Ffordd Fynediad Breifat newydd i gae mynediad. Cyflwyno darn o Gynllun Addasiad 3 yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn lle Cynllun Safle 1A yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft. Ar Atodlen 1 i Gynllun Safle 1A, o dan 'Rhif Cyfeirnod Ffordd Fynediad Breifat Newydd', ychwaneger 1/9a.

Gorchymyn Prynu Gorfodol

Cyflwyno Darn Rhif **03** Addasiad Tabl 1 yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn lle'r hyn a gofnodwyd yn Nhabl 1 yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft.

Bydd angen gwneud y newidiadau canlynol i'r Atodlen i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol cyhoeddedig drafft:

Tabl 1:

Plot 1/1a yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Lleihau'r plot 5890 metr sgwâr

Plot 1/1u yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Plot 1/1v yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Plot 1/1w yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Yr A40 rhwng Penblewin a Redstone Cross

ADDASIAD 04

Gorchymyn/Gorchmynion drafft perthnasol

- Gorchymyn Ffyrdd Ymyl
- Gorchymyn Prynu Gorfodol

Ymatebwyr perthnasol:

- R0021 – Malcolm John Benjamin Lewis

Amlinelliaid:

Mae angen Priffordd Dros Dro newydd tra bydd trosbont Redstone Road yn cael ei hadeiladu. Mae angen tir ychwanegol yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol fel Trwydded Hanfodol.

Telerau Addasiad i'r Gorchmynion Drafft Cyhoeddedig

Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft

Cynigir Priffordd Dros Dro Newydd i roi mynediad tra bydd y drosbont yn cael ei hadeiladu.

Cyflwyno darn o Gynllun Addasiad 4 yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn lle Cynllun Safle 1A yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft.

Ar Atodlen 1 i Gynllun Safle 1A, o dan 'Llythyr Cyfeirio y Briffordd Newydd', ychwaneger 1/E.

Gorchymyn Prynu Gorfodol

Cyflwyno Darn Rhif **04** Addasiad Tabl 1 yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn lle'r hyn a gofnodwyd yn Nhabl 1 yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft.

Bydd angen gwneud y newidiadau canlynol i'r Atodlen i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol cyhoeddedig drafft:

Tabl 1:

Plot 1/4e yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Lleihau'r plot i 365 metr sgwâr

Plot 1/4ac yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Plot 1/4ad yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Plot 1/4ae yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

ADDASIAD 05

Gorchymyn/Gorchmynion drafft perthnasol

- Gorchymyn Ffyrdd Ymyl
- Gorchymyn Prynu Gorfodol

Ymatebwyr perthnasol:

- 0021 – Malcolm John Benjamin Lewis

Amlinelliaid:

Mae angen mynediad i'r danffordd newydd i wartheg a ddarparwyd ar gyfer Mr Lewis fel Ffordd Fynediad Breifat Newydd.

Telerau Addasiad i'r Gorchmynion Drafft Cyhoeddedig

Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft

Cynigir Ffordd Fynediad Breifat Newydd i gael mynediad i gae drwy'r Danffordd arfaethedig. Cyflwyno darn o Gynllun Addasiad 5 yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn lle Cynllun Safle 1A yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft.

Ar Atodlen 1 i Gynllun Safle 1A, o dan 'Rhif Cyfeirnod Ffordd Fynediad Breifat Newydd', ychwaneger 1/10a.

Gorchymyn Prynu Gorfodol

Cyflwyno Darn Rhif **05** Addasiad Tabl 1 yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn lle'r hyn a gofnodwyd yn Nhabl 1 yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft.

Bydd angen gwneud y newidiadau canlynol i'r Atodlen i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol cyhoeddedig drafft:

Tabl 1:

Plot 1/4t yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Lleihau'r plot i 845 metr sgwâr

Plot 1/4x yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Lleihau'r plot i 305 metr sgwâr

Plot 1/4y yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Lleihau'r plot i 15417 metr sgwâr

Plot 1/4aa yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Lleihau'r plot i 6398 metr sgwâr

Plot 1/4ab yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Lleihau'r plot i 700 metr sgwâr

Plot 1/4af yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Plot 1/4ag yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Plot 1/4ah yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Plot 1/4aj yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Plot 1/4ak yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Plot 1/4am yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Plot 1/4an yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Yr A40 rhwng Penblewin a Redstone Cross

ADDASIAD 06

Gorchymyn/Gorchmynion drafft perthnasol

- Gorchymyn Ffyrdd Ymyl
- Gorchymyn Prynu Gorfodol

Ymatebwyr perthnasol:

- 0019 – Michael William Plumb

Amlinelliaid:

Mae mynediad i'r Danffordd i Wartheg fel y'i cyhoeddwyd ar y cyd â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft wedi cael ei newid i Mr Plumb a Mr Harries er mwyn gwahanu llwybrau oddi wrth ei gilydd.

Telerau Addasiad i'r Gorchmynion Drafft Cyhoeddedig

Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft

Darperir Ffordd Fynediad Breifat arfaethedig ddiwygiedig er mwyn gwahanu llwybrau oddi wrth ei gilydd. Cyflwyno darn o Gynllun Addasiad 6 yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn lle Cynllun Safle 1B yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft.

Gorchymyn Prynu Gorfodol

Cyflwyno Darn Rhif **06** Addasiad Tabl 1 yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn lle'r hyn a gofnodwyd yn Nhabl 1 yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft.

Bydd angen gwneud y newidiadau canlynol i'r Atodlen i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol cyhoeddedig drafft:

Tabl 1:

Plot 1/12b yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol - Lleihau'r plot i 392 metr sgwâr

Plot 1/12b yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol - Lleihau'r plot 2086 metr sgwâr

Plot 1/12u yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol – Plot newydd

Yr A40 rhwng Penblewin a Redstone Cross

Addasiad 7

Mae'r addasiad hwn yn cywiro enw perchennog Plot 1/5 ar yr Atodlen i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol.

Yr A40 rhwng Penblewin a Redstone Cross

Addasiad 8

Mae'r addasiad hwn yn cywiro Teitl y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl.

Yr A40 rhwng Penblewin a Redstone Cross

ADDASIAD 09

Gorchymyn/Gorchmynion drafft perthnasol

- Gorchymyn Ffyrdd Ymyl

Ymatebwyr perthnasol:

DD/G

Amlinelliaid:

Roedd y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft a gyhoeddwyd yn flaenorol yn cynnwys Ffordd Fynediad Breifat Newydd arfaethedig ar gyfer Mr Lewis, perchennog y tir.

Telerau Addasiad i'r Gorchmynion Drafft Cyhoeddedig

Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft

Dilëwyd y Ffordd Fynediad Breifat Newydd arfaethedig. Cyflwyno darn o Gynllun Addasiad 9 yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn lle Cynllun Safle 1B yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft.

Ar Atodlen 2 i Gynllun Safle 1B, o dan 'Rhif Cyfeirnod Ffordd Fynediad Breifat Newydd', dileer 1/6a.